# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 31 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

4 Cwestiynau i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am (a) y cylch gorchwyl arfaethedig, (b) y strwythur arfaethedig ac (c) yr amserlen arfaethedig ar gyfer ei Adolygiad o Gost Gweinyddu'r System Addysg yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mewn cysylltiad ag ysgolion a phrifysgolion, ill dau. (WAQ55792)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Ar 23 Chwefror 2010, cyhoeddais Ddatganiad y Cabinet sy'n mynd i'r afael â'r pwyntiau uchod. Mae'r Datganiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn: http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2010/100223system/?skip=1&lang=cy

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl cais yn union a gyflwynwyd ar gyfer cyllid ProAct a beth oedd y rhesymau dros wrthod y ceisiadau hynny nad oeddent yn llwyddiannus. (WAQ55785) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Mae ProAct wedi cael cyfanswm o 411 o geisiadau hyd yn hyn (bydd y cynllun yn parhau i dderbyn ceisiadau am gymorth gan fusnesau tan 30 Mehefin). Mae 208 o geisiadau wedi cael arian, a chafodd 46 o geisiadau eu gwrthod gan banel ProAct. Mae gweddill y ceisiadau naill ai'n gweithio'n agos gyda chynghorydd i ddatblygu cynllun hyfforddi, yn datrys ymholiadau a godwyd gan y panel cyn symud ymlaen i'r cam nesaf neu'n disgwyl cael eu hadolygu yn ystod cyfarfod nesaf y panel.
Mae rhesymau'r panel dros wrthod ceisiadau yn ymwneud yn uniongyrchol â'r meini prawf cymhwyso ar gyfer ProAct. Er enghraifft, os nad yw'r cwmni wedi dangos effaith y dirywiad economaidd, heb ddangos trefniadau gweithio amser byr neu heb ddangos bod y cwmni yn hyfyw yn ariannol yn y gorffennol.
Pan fo cais wedi cael ei ystyried a'i wrthod gan y panel, mae gan gwmnïau'r cyfle i gyflwyno ail gais sy'n ymateb i'r materion a nodwyd. Mae tua 20% o'r cwmnïau sy'n datblygu cynllun hyfforddi gyda chynghorydd ar hyn o bryd wedi symud ymlaen yn y ffordd hon.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad / meini prawf sgorio a ddefnyddiwyd i bennu a oedd cwmni'n wirioneddol mewn sefyllfa o orfod dileu swyddi wrth wneud cais am gyllid ProAct. (WAQ55786) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Lesley Griffiths:** Wrth gyflwyno eu ceisiadau, bydd rhai cwmnïau eisoes wedi gorfod diswyddo gweithwyr a byddant yn gwneud cais am gymorth ProAct er mwyn atal diswyddiadau pellach.
Ar gyfer y ceisiadau hynny lle nad oes diswyddiadau wedi bod, mae'n rhaid i gwmnïau ddangos eu bod wedi dechrau gweithio amser byr neu â dyddiad mewn golwg a bod y dirywiad economaidd yn lleihau trosiant a/neu elw. Gan ystyried ffactorau o'r fath, byddai cwmni'n debygol o ddiswyddo aelodau o staff os nad oedd ymyriad.

Rôl y panel yw sicrhau bod achosion busnes yn bodloni meini prawf cymhwyso ProAct a sicrhau bod ceisiadau yn cael sylw cyn gynted â phosibl er mwyn atal oedi i'r cwmni, gan gofio'r amgylchiadau anodd y bydd yn eu hwynebu.
Mae'r cwmnïau sydd wedi derbyn arian ProAct wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn ar yr effaith y mae'r arian wedi'i chael ar eu busnes yn y tymor byr ac ar yr agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddefnyddiwyd i gynnal asesiadau o'r ceisiadau am gyllid ProAct. (WAQ55787) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Lesley Griffiths:** Mae panel ProAct wedi bodoli ers sefydlu'r rhaglen, er mwyn asesu achosion busnes i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd ProAct.
Mae'r panel yn cynnwys aelodau o undeb llafur, APADGOS, yr Adran Datblygu Economadd a Thrafnidiaeth, Cynghorau Sgiliau Sector a chorff sector (fel Fforwm Moduron Cymru) pan fo'n briodol; mae gan bob un rôl allweddol yn y gwaith o asesu'r achosion busnes gan ddefnyddio'u harbenigedd penodol i ychwanegu gwerth i'r broses. Mae gan bob panel un aelod o APADGOS sy'n cynnig safbwynt o ran hyfforddi a sgiliau, ac un aelod o'r Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth sy'n rhoi cyngor ar ddatblygu busnes ac agweddau economaidd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A ddefnyddiwyd aseswyr allanol i ganfod sefyllfa ariannol y cwmnïau a wnaeth gais am gyllid ProAct ac i brofi bod perygl y caiff swyddi eu dileu o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol. (WAQ55788) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Lesley Griffiths:** Mae panel ProAct sy'n asesu ceisiadau yn cynnwys aelodau allanol o undeb llafur, Cynghorau Sgiliau Sector a chorff sector pan fo hynny'n briodol.
Mae'r aelod o staff o'r Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth sy'n mynychu cyfarfodydd y panel yn gyfrifydd cymwysedig sy'n rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol o ran y wybodaeth ariannol a gyflwynir gan gwmnïau.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Fel arfer, faint o amser y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gymryd ar gyfartaledd i asesu cais am gymorth cyllid dan y Gronfa Fuddsoddi Sengl/Cymorth Hyblyg i Fusnes. (WAQ55789)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Yr amser cyfartalog ar gyfer prosesu holl elfennau'r Gronfa Fuddsoddi Sengl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10 hyd heddiw yw 12 diwrnod gwaith. Roedd yr amseroedd prosesu unigol yn amrywio, gan gymryd o leiaf ddau ddiwrnod, yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos a chyflawnrwydd ac ansawdd y wybodaeth a dderbyniwyd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl cwmni, a faint o leoedd hyfforddi, a gafodd eu cyllido dan y cynllun ProAct heb i'r cwmni orfod dangos bod swyddi'r unigolion a oedd yn cael y lleoedd hyfforddi mewn perygl. (WAQ55790) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Nid oes unrhyw gwmni wedi derbyn arian ProAct heb iddo ddangos bod diswyddo yn bosibl heb gymorth ProAct.
Bydd cyflogeion wedi derbyn cymorth ProAct er nad oeddent o reidrwydd o dan fygythiad uniongyrchol o gael eu diswyddo pan gyflwynwyd y cais, ond byddai risg i gyflogaeth hirdymor o ystyried sefyllfa ariannol y cwmni. Mae'r cynllun hyfforddi'n canolbwyntio ar ddichonoldeb y cwmni drwy roi'r sgiliau angenrheidiol i gyflogeion i wella cystadleurwydd a chynhyrchiant.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno tagiau adnabod electronig ar gyfer defaid yn 2010, a darparu manylion ar wahân ynghylch pa drafodaethau y mae wedi'u cael ers hynny gyda chynrychiolwyr y sectorau prosesu ac amaethyddol ynghylch ei effeithiolrwydd. (WAQ55784)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Daeth gofynion sylfaenol Rheoliad Cyngor 21/2004 i rym yng Nghymru drwy gyflwyno deddfwriaeth o 31 Rhagfyr 2009.

Caiff y rheolau eu hesbonio mewn canllawiau a anfonwyd at geidwaid defaid a geifr cofrestredig yn ystod mis Ionawr, a ategwyd gan gyfres o gyflwyniadau gan swyddogion, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o reolau newydd y diwydiant. Hefyd, mae cofnod praidd diwygiedig wedi'i anfon at geidwaid cofrestredig, sy'n galluogi'r mwyafrif o geidwaid i barhau i gofnodi ar bapur.

Mae'n ddyddiau cynnar o hyd, gyda nifer cymharol fach o ŵyn (masnach gwpl) yn cael eu symud, ac mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith. Rwyf wedi cyfarfod ag arwerthwyr da byw yn ddiweddar, ac roedd eu pryderon yn adlewyrchu'r ystod gyfyngedig o ddyfeisiadau adnabod electronig a oedd ar gael ar y pryd. Rwyf wedi fy sicrhau bod 12 o weithgynhyrchwyr yn gallu cyflenwi 19 o dagiau clust adnabod electronig ac un bolws sydd wedi'u cymeradwyo, gan gynyddu'r dewis sydd ar gael a chystadleurwydd y farchnad honno.

Bydd effaith y Rheoliad hwn yn parhau i gael ei hasesu ond dim ond wrth i nifer yr ŵyn sy'n cael eu geni gynyddu y bydd y dystiolaeth ar gael.

## *Gofyn i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Yn dilyn yr ateb i WAQ55700, faint oedd cost cynnal y digwyddiadau rhwng y 4ydd a'r 6ed o fis Mawrth yn Adeilad y Pierhead a'r Eglwys Norwyaidd i Gomisiwn y Cynulliad. (WAQ55793)

***Rhoddwyd ateb ar 31 Mawrth 2010***

**Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy:** Ers y lansiad ar 1 Mawrth, ac o ganlyniad i'r proffil a godwyd mewn perthynas â'r Sesiynau, mae'r Pierhead wedi denu bron i 10,000 o ymwelwyr. Mae pob ymwelydd wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd bleidleisio ryngweithiol yn seiliedig ar bynciau llosg sydd o ddiddordeb i'r Cynulliad, ac i roi atborth ar y Sesiynau a'r adeilad. Mae'r atborth a gafwyd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol dros ben, ac yn dangos bod yr adeilad a'r digwyddiadau a gynhaliwyd yno wedi bod yn berthnasol ac o ddiddordeb i bobl Cymru a thu hwnt.

Cynhaliwyd Sesiynau'r Pierhead gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 4 a 6 Mawrth 2010.
Pwrpas yr ŵyl agoriadol, a gynhaliwyd dros dridiau, oedd nodi ailagor y Pierhead a'i sefydlu fel llwyfan cyhoeddus ar gyfer siarad a thrafod yn rhydd. Cyflawnwyd hyn â chyfres o sesiynau a oedd yn cynnwys siaradwyr enwog a gwesteion arbennig yn trafod nifer o bynciau'r dydd sy'n effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru a'r DU.
Ymdriniodd y sesiynau ag amrywiaeth eang o bynciau a materion sydd ar frig yr agenda ar hyn o bryd o ran y drafodaeth genedlaethol yng Nghymru, e.e. dyfodol newyddiaduriaeth yng Nghymru, beth y dylem fwyta, a'r amgylchedd. Bwriad y sesiynau oedd porthi'r drafodaeth honno er mwyn dod o hyd i atebion.
Mae'n ffurfio, felly, un maes o un o brif nodau strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y Trydydd Cynulliad hwn, sef annog pobl i gyfrannu at y broses wleidyddol.
Roedd y sesiynau i gyd yn llawn, neu bron yn llawn, sydd, yn ein tyb ni, yn dangos gwerth am arian da iawn o ran cyrraedd y nod hwnnw.
Cynhaliwyd hefyd sesiynau addysgiadol yn cynnwys Kontact@Y Pierhead, prosiect arloesol sy'n edrych ar sut mae pobl yn eu harddegau'n rhyngweithio ag oedolion, gweithdy ar sut i fod yn ddinesydd byd-eang, a Ras y Docwyr - sioe gymdeithasol arloesol ym myd theatr y stryd. Yn ogystal, roedd arddangosfa o waith y ffotonewyddiadurwr Phillip Jones Griffiths yn Oriel y Dyfodol am fis.
Cynhaliwyd noson yn yr Eglwys Norwyaidd i ategu'r rhaglen ffurfiol, yn cynnwys perfformiadau cerddorol a chomedi gan artistiaid sy'n newydd i'r maes, mewn cydweithrediad â gŵyl Sŵn.
Sesiynau'r Pierhead yw'r digwyddiad sy'n nodi pen llanw rhaglen o ddigwyddiadau a drefnir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dros flwyddyn i nodi deng mlynedd o ddatganoli yng Nghymru.
Roedd Sesiynau'r Pierhead ar agor i bob aelod o'r cyhoedd, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol, partneriaid a myfyrwyr. Daeth cyfanswm o dros 700 gwestai i'r Sesiynau dros y tridiau.
Er mwyn sicrhau y bydd yr ŵyl yn parhau i fod yn hygyrch ac yn berthnasol i bobl yng Nghymru, y DU a thramor, mae'r Sesiynau i gyd wedi'u recordio ac maent ar gael ar y wefan: www.pierheadsessions.org. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys cyfweliadau unigryw â rhai o'r siaradwyr sy'n cymryd rhan.

**Costau llwyfannu'r Sesiynau**

| **Dadansoddiad** | **Cost** |
|---|---|
| Ffioedd y siaradwyr | £4,900 |
| Cynhaliaeth (yn cynnwys costau teithio a llety'r siaradwyr) | £1,300 |
| Digwyddiadau addysg | £6,000 |
| Sesiwn Hwyr yn yr Eglwys Norwyaidd | £3,450 |
| Seilwaith (yn cynnwys goleuadau ychwanegol a gwe-ddarlledu) | £10,450 |
| Swyddfa docynnau | £260 |
| Pierhead TV (yn cynnwys cynhyrchu a ffilmio) | £5,000 |
| **Cyfanswm** | **£31,360** |

**Costau gosod yr ŵyl**
Roedd hefyd rhai costau gosod a chostau seilwaith yn gysylltiedig â'r ŵyl, ond nid costau unigol yw'r rhain gan y byddant yn helpu i dalu am Sesiynau yn y Pierhead dros sawl blwyddyn yn y dyfodol.

| **Dadansoddiad** | **Cost** |
|---|---|
| Costau gosod y seilwaith | £9,150 |
| **Marchnata**<br>Argraffu/dylunio – holl ddeunyddiau'r ŵyl<br>Dylunio/gosod y wefan<br>Ffotograffiaeth<br>Dosbarthu deunydd print<br>Gofod hysbysebu | <br>£12,202<br>£8,000<br>£1,000<br>£1,000<br>£1,920 |
| Ffi The Festivals Company | £16,500 |
| **Cyfanswm** | **£49,772** |